



---

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## **Y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)**

Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud o dan y Bil hwn.

Ebrill 2018

## Y BIL CYLLIDO GOFAL PLANT (CYMRU)

### DATGANIAD O FWRIAD Y POLISI AR GYFER IS-DDEDDFWRIAETH

1. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu bwriad y polisi presennol ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth y byddai Gweinidogion Cymru wedi'i galluogi i'w gwneud o dan ddarpariaethau'r Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) (y Bil) neu y byddai'n ofynnol iddynt ei gwneud. Fe'i lluniwyd i helpu pwyllgorau wrth graffu ar y Bil a dylid ei darllen ar y cyd â'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol a'r Nodiadau Esboniadol cysylltiedig.
2. Mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu cyllid ar gyfer gofal plant i blant cymwys rhieni sy'n gweithio ac i wneud rheoliadau ynghylch y trefniadau ar gyfer gweinyddu a gweithredu cyllid o'r fath.
3. Ac eithrio'r pŵer i gychwyn darpariaethau'r Bil drwy orchymyn yn adran 12 y Ddeddf, mae'r pwerau dirprwyedig a ddarperir gan y Bil ar ffurf rheoliadau.
4. Nodir manylion gweithdrefn y Cynulliad ar gyfer pob pŵer gwneud is-ddeddfwriaeth ym Mhennod 5 y Memorandwm Esboniadol. Dilynwyd y canllawiau a gyhoeddwyd gan y Cwnsler Cyffredinol ym mis Ionawr 2012 er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau'r Cynulliad yn cael eu cymhwyso'n gyson.
5. Os daw i rym, bydd y Bil yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ar gyfer:
  - rhagnodi'r amodau y bydd yn rhaid eu bodloni er mwyn i blentyn fod yn gymwys ar gyfer cyllid (hynny yw, i gael ei ystyried yn "blentyn cymwys"), gan gynnwys unrhyw ddatganiadau y bydd rhaid eu gwneud ac unrhyw amodau y bydd rhaid i rieni plentyn eu bodloni;
  - gwneud darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol i rieni ddarparu gwybodaeth sy'n berthnasol i'w cais am gyllid gofal plant a darpariaeth i wneud trefniadau ar gyfer gosod cosbau ariannol pan fydd gwybodaeth anwir neu gamarweiniol yn cael ei rhoi;
  - gwneud darpariaeth a fydd yn caniatáu i Gyllid a Thollau ei Mawrhydi ddarparu gwybodaeth gymhwysol i Weinidogion Cymru neu i berson sy'n darparu gwasanaethau i Weinidogion Cymru at ddibenion gweinyddu'r cynllun, ac a fydd yn caniatáu neu'n ei gwneud yn ofynnol i adrannau Llywodraeth y DU, Gweinidogion y Goron ac awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth gymhwysol iddynt;

- rhagnodi manylion trefniadau ar gyfer datgelu gwybodaeth gymhwysol i eraill a chreu troseddau mewn cysylltiad â datgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â pherson penodol;
  - gwneud darpariaeth i ymgeiswyr allu gofyn am adolygu penderfyniadau a wnaed ar eu ceisiadau a darpariaeth ar gyfer trefnu bod apelau'n cael eu gwneud i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf;
  - rhoi pŵer neu osod rhwymedigaeth ar awdurdodau lleol mewn cysylltiad â'r cyllid;
  - galluogi codi uchafswm y gosb ariannol y gellir ei rhoi i berson sy'n darparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol mewn cysylltiad â gofyniad i ddarparu gwybodaeth.
6. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod yr is-bwerau hyn yn angenrheidiol er mwyn rhagnodi manylion a darparu hyblygrwydd ar gyfer materion y gallai fod gofyn eu haddasu i hwyluso'r broses o roi'r cyllid ar waith a'i weithredu'n effeithiol.
  7. Rhagwelir y bydd dwy set o reoliadau'n deillio o'r pwerau yn y Bil. Ni fydd un o'r setiau (sy'n ymdrin â meini prawf cymhwysedd a sut i wneud cais am gyllid) yn ddarostyngedig i gydsyniad "Gweinidog priodol" ar ran adran o Lywodraeth y DU neu Weinidog y Goron, ond bydd y set arall (sy'n ymdrin â rhannu gwybodaeth rhwng Lywodraeth Cymru a thrydydd partïon a datgelu gwybodaeth i eraill) yn ddarostyngedig i gydsyniad o'r fath.
  8. Mae adran 12(1) o'r Bil yn darparu bod adrannau 12 a 13 yn dod i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod pan gaiff y Bil Gydsyniad Frenhinol. Cychwynnir darpariaethau eraill y Bil, drwy orchymyn, pan fydd Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol neu'n fuddiol.
  9. Wrth ddatblygu is-ddeddfwriaeth, bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod y darpariaethau'n berthnasol, yn ddilys ac yn gymesur.

### **Cynllun gweinyddol**

10. Bydd cynllun gweinyddu'n cael ei ddatblygu ochr yn ochr â'r rheoliadau. Bydd y cynllun yn esbonio beth y gall plentyn cymwys ei gael ac ym mhle y caiff y gofal plant a ariennir a phwy fydd yn ei ddarparu. Darperir rhagor o fanylion ynglŷn â'r bwriad polisi mewn perthynas â'r cynllun tua ddiwedd y ddogfen hon.

<b>RHEOLIADAU SY'N YMWNEUD Â</b>	Cyllido gofal plant ar gyfer plant rhieni sy'n gweithio
<b>ADRAN</b>	Adran 1
<b>Y WEITHDREFN</b>	Cadarnhaol
<b>DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU</b>	
<p>Mae <b>Adran 1</b> o'r Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu cyllid wedi'i dargedu, a fydd yn helpu rhieni sy'n gweithio â chostau gofal plant.</p> <p>Mae'r adran hon yn darparu pwerau i wneud rheoliadau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddiffinio'r amodau y bydd rhaid i blentyn a rhiant, neu bartner rhiant, eu bodloni i gael eu hystyried yn gymwys i gael cyllid ar gyfer gofal plant. Er enghraifft, bydd y rheoliadau'n nodi ystyr y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• plentyn cymwys, a bydd hyn yn cynnwys oed y plentyn a gofyniad bod y plentyn yng Nghymru</li> <li>• rhiant sy'n gweithio</li> <li>• gwaith am dâl;</li> <li>• partner rhiant.</li> </ul> <p>Bydd y rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhiant, neu bartner y rhiant, wneud datganiad mewn cysylltiad â'r plentyn y gwneir cais am gyllid gofal plant ar ei ran. Bydd y rheoliadau'n nodi'r amodau i'w bodloni gan berson sy'n gwneud datganiad (gan gynnwys gofyniad bod y person sy'n gwneud y datganiad yng Nghymru), ffurf a chynnwys unrhyw ddatganiad ac unrhyw ofynion i riant neu bartner i riant, ddatgan eu cymhwysedd o'r newydd.</p> <p>Diben y rheoliadau hyn yw rhoi rhagor o fanylion ynghylch y meini prawf craidd ar gyfer cymhwysra at ddibenion y cynllun a sut a phryd y bydd cymhwysra'n cael ei ddatgan at ddibenion y cynllun. O ystyried y myrdd o wahanol amgylchiadau y mae rhaid eu cynnwys, ni fyddai'n briodol nodi'r manylion yn y Bil ei hun. Bydd defnyddio rheoliadau hefyd yn caniatáu i Weinidog Cymru ymateb yn hyblyg ac mewn da bryd petai angen adolygu'r amodau y mae rhaid eu bodloni i fod yn gymwys ar gyfer y cyllid yn sgil tystiolaeth newydd.</p>	
<b>BWRIAD POLISI Y PWERAU I WNEUD RHEOLIADAU O DAN ADRAN 1</b>	
<p>Y meini prawf cymhwysra craidd, fel y'u nodir yn y rheoliadau hyn, fydd y sail ar gyfer asesu a yw plentyn a'r rhiant yn gymwys ar gyfer gofal plant a ariennir gan y Llywodraeth. Bydd hefyd yn esbonio sut a phryd y bydd rhaid i riant, neu bartner rhiant, ddatgan ei gymhwysra.</p>	

<b>RHEOLIADAU SY'N YMWNEUD A</b>	Y pŵer i wneud darpariaethau ynghylch gweinyddu'r cyllid ac ati.
<b>ADRAN</b>	Adran 2
<b>Y WEITHDREFN</b>	Cadarnhaol
<b>DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU</b>	
<p>Mae <b>Adran 2</b> y Bil yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a fydd yn rhagnodi'r trefniadau ar gyfer gweinyddu'r cyllid gofal plant. Ymhlith materion eraill, mae'r rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaeth y cyfeirir ati yn adrannau 3-7 o'r Bil a rhagwelir y byddant yn gwneud darpariaethau ynghylch y materion a ganlyn:</p> <p><b>Gofyniad i rieni etc ddarparu gwybodaeth</b></p> <p>Mae adran 3 y Bil yn cyfeirio at y ddarpariaeth ar gyfer gwneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i riant, neu bartner rhiant, ddarparu gwybodaeth a fydd yn caniatáu i benderfyniad gael ei wneud ynghylch a ydyn nhw, a'u plentyn, yn gymwys i gael gofal plant a ariennir. Bydd angen darparu'r wybodaeth hon a bydd angen cadarnhau ei chywirdeb drwy wneud datganiad y darperir ar ei gyfer o dan adran 1 y Bil.</p> <p>Bydd y rheoliadau'n creu cosbau ariannol am ddatganiadau anghywir; am ddarparu datganiadau anwir neu gamarweiniol ac am anonestrydd ar ran y person sy'n gwneud cais am y cyllid. (Mae adran 10 o'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio, drwy reoliadau, uchafswm y gosb ariannol a gyflwynwyd yn rhinwedd yr adran hon.)</p> <p><b>Trydydd partïon yn darparu gwybodaeth</b></p> <p>Bydd rheoliadau a wneir yn rhinwedd adran 4 yn sefydlu pyrth priodol ar gyfer gwybodaeth rhwng Gweinidogion Cymru (neu bersonau sy'n darparu gwasanaethau i Weinidogion Cymru) ac adrannau perthnasol Llywodraeth y DU (neu bersonau sy'n darparu gwasanaethau iddynt), mewn perthynas â "gwybodaeth gymhwysol".</p> <p>Bydd y rheoliadau'n diffinio ystyr "gwybodaeth gymhwysol" at ddibenion gweinyddu a gweithredu'r cynllun ariannu gofal plant. Bydd y rheoliadau'n nodi gwybodaeth sy'n berthnasol i gynnal gwiriadau hunaniaeth at ddibenion y cynllun a bydd yn nodi "perchnogion" yr wybodaeth hon. Y prif berchnogion gwybodaeth mewn perthynas â'r Bil hwn fydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, yr Adran Gwaith a Phensiynau a Swyddfa Gartref Llywodraeth y DU.</p> <p>Bydd ymgysylltu priodol yn digwydd â'r adrannau perthnasol yn Llywodraeth y DU ynghylch unrhyw gynig drafft sy'n ymwneud â datgelu gwybodaeth a gedwir gan yr adran honno a bydd y rheoliadau'n ddarostyngedig i gydsyniad y Gweinidog priodol yn Llywodraeth y DU.</p>	

### **Datgelu ymlaen wybodaeth a ddatgelwyd yn rhinwedd adran 3 neu 4**

Bydd y rheoliadau a wnaed yn rhinwedd adran 5 yn egluro o dan ba amgylchiadau y caniateir pasio gwybodaeth ymlaen a ddarparwyd gan riant, gan bartner rhiant, neu gan drydydd parti at ddibenion gwneud gwaith gweinyddol ynghylch y cais a'r broses o wirio cymhwysra. Bydd unrhyw reoliadau sy'n ymwneud â datgelu ymlaen wybodaeth a ddarparwyd gan adrannau o Lywodraeth y DU, neu bersonau sy'n darparu gwasanaethau ar eu rhan, yn ddarostyngedig i gydsyniad y Gweinidog priodol yn Llywodraeth y DU. Bydd y rheoliadau hefyd yn creu trosedd a fydd yn gymwys mewn sefyllfaoedd pan fydd gwybodaeth gyfrinachol ynghylch person penodol wedi'i rannu'n anghyfreithlon.

### **Adolygu penderfyniadau ac apelau i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf**

Bydd rheoliadau a wneir yn rhinwedd adran 6 yn nodi'r drefn y gellir ei defnyddio gan riant, neu bartner rhiant, i wneud cais am adolygu penderfyniad ynghylch eu cymhwysra i gael cyllid gofal plant, neu adolygu cosb a bennwyd o dan reoliadau a wnaed yn rhinwedd adran 3 o'r Bil.

Bydd y rheoliadau hefyd yn rhoi manylion y trefniadau i'w defnyddio petai riant, neu bartner rhiant, yn parhau i fod yn anfodlon â phenderfyniad neu gosb ar ôl ei adolygu. Bydd apelau mewn perthynas â phenderfyniadau a chosbau yn cael eu hystyried gan Siambr Hawliau Cymdeithasol Tribiwnlys yr Haen Gyntaf.

### **Y pŵer i roi swyddogaethau i awdurdodau lleol**

Caiff rheoliadau yn rhinwedd adran 7 nodi'n eglur pa bŵer sy'n cael ei roi i awdurdodau lleol mewn perthynas â'r cynllun cyllid gofal plant a nodi manylion rhwymedigaethau awdurdodau lleol o ran gweinyddu'r cynllun yn effeithiol. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol drefnu i helpu rhieni, a phartneriaid rhieni, i wneud cais am yr arian ac iddynt gefnogi darparwyr yn eu hardaloedd lleol. Bydd Gweinidogion Cymru'n dosbarthu canllawiau i awdurdodau lleol yn esbonio sut y dylid defnyddio unrhyw bŵer a roddir neu gyflawni unrhyw rwymedigaeth a osodir arnynt.

\*\*\*\*\*

Bydd pwerau i wneud rheoliadau yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru adolygu'r prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud cais am y cyllid gofal plant ac ar gyfer penderfynu ar gymhwysra, os tybiant bod angen gwneud hynny. Bydd hyn yn eu galluogi i ymateb yn gyflym petai angen unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r modd y mae gwybodaeth berthnasol yn cael ei rheoli neu ei phrosesu gan drydydd partiön. Ystyrir hefyd ei bod yn fwy priodol cynnwys manylion gweithdrefnol fel hyn mewn rheoliadau yn hytrach na nodi'r ddarpariaeth yn llawn ar wyneb y Bil.

### **BWRIAD POLISI Y PWERAU I WNEUD RHEOLIADAU O DAN ADRAN 2**

Bydd y pwerau i wneud rheoliadau o dan adran 2 yn galluogi Gweinidogion Cymru i

nodi, ymhlith materion eraill, pa wybodaeth y mae angen ei darparu gan bwy at ddibenion gwirio cymhwysra a disgrifio sut y gall rhiant, neu bartner rhiant, wneud cais am arian, gan gynnwys sut y mae mynd ati i herio unrhyw benderfyniadau a wneir ynghylch cais.

Y bwriad yw yr ymdrinnir â'r rheoliadau sy'n ddarostyngedig i gydsyniad Gweinidog priodol Llywodraeth y DU ar wahân i'r rheoliadau y gellir eu gwneud heb gydsyniad un o Weinidogion Llywodraeth y DU.

<b>RHEOLIAD YN YMWNEUD Â</b>	Pŵer i newid maint cosb ariannol am ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol
<b>ADRAN</b>	Adran 10
<b>Y WEITHDREFN</b>	Cadarnhaol
<b>DISGRIFIAD O'R GORCHYMYN</b>	
Mae adran 10 o'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio, drwy reoliadau, uchafswm cosb ariannol a grëwyd mewn rheoliadau a wnaed o dan adran 2 ar gyfer darparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol mewn cysylltiad â gofyniad a osodwyd yn rhinwedd adran 3 o'r Bil.	
<b>BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU</b>	
Bydd Gweinidogion Cymru'n gallu adolygu lefel unrhyw gosb ariannol ac yn gallu diwygio adran 3(6) o'r Bil heb fod angen unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol.	

<b>GORCHYMYN SY'N YMWNEUD Â</b>	Cychwyn
<b>ADRAN</b>	Adran 12
<b>Y WEITHDREFN</b>	Dim gweithdrefn
<b>DISGRIFIAD O'R GORCHYMYN</b>	
Mae'r gorchymyn hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu ar gyfer cychwyn y Bil. .	
<b>BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU</b>	
Bydd Gweinidogion Cymru'n dymuno ystyried pryd i ddod â gwahanol ddarpariaethau'r Ddeddf i rym. Mae angen ystyried rhyngddibyniaethau pwysig wrth benderfynu pryd i ddod â rhai darpariaethau i rym. Un ohonynt yw'r cysylltiadau â'r gwaith gweinyddol a thechnegol a fydd yn ofynnol er mwyn	

datblygu'r platfform digidol ar gyfer y system ymgeisio a gwirio cymhwysra. Mae'n bosibl y bydd gwersi a ddysgwyd wrth weithredu'r Cais yn gynnar hefyd yn cael effaith ar benderfyniadau Gweinidogion Cymru o ran dod â gwahanol ddarpariaethau i rym.



## DISGRIFIAD O'R CYNLLUN GWEINYDDOL A'I AMCANION POLISI

Yn ogystal â Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) a'r rheoliadau, bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi cynllun gweinyddol a fydd yn disgrifio sut a pryd y gellir defnyddio'r oriau gofal plant a phwy fydd yn gallu cyflenwi'r gofal plant at ddibenion y cynllun.

Bydd y cynllun yn cynnwys y materion a ganlyn:

- sut bydd yr oriau gofal plant yn cael eu cyfrifo. Y bwriad yw bod y Cynnig Gofal Plant ar gyfer Cymru yn darparu 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant ar gyfer rhieni sy'n gweithio a chanddynt blant tair a phedair oed sy'n gymwys, a hynny am hyd at 48 wythnos y flwyddyn;
- sut gall rhieni gael gafael ar y gofal plant, er enghraifft y nifer o oriau y gellir eu cymryd mewn un diwrnod; sawl lleoliad y gellir eu defnyddio; beth sy'n digwydd yn ystod gwyliau ysgol;
- pwy gaiff gyflenwi'r gofal plant at ddibenion y cynllun;
- yr amodau y mae rhaid i ddarparwyr eu bodloni er mwyn cyflenwi'r cynllun;

Bydd y cynllun hefyd yn nodi manylion y trefniadau ar gyfer talu darparwyr am ofal plant a ddarperir o dan y cynllun, gan gynnwys y gyfradd a fydd yn cael ei thalu fesul awr ac unrhyw gyllid ychwanegol a allai fod ar gael i helpu plant ag anghenion addysgol arbennig/anghenion dysgu ychwanegol, er enghraifft.

Fel rhan o weithredu'r Cynllun Gofal Plant yn gynnar, mae canllawiau anstatudol ar gael ar gyfer awdurdodau lleol<sup>1</sup> a rhagwelir y bydd y rhain yn helpu i lunio'r cynllun gweinyddol yn y dyfodol. Mae'n bosibl y caiff y canllawiau hyn eu newid wrth i'r canfyddiadau o weithredu'n gynnar ddod i'r amlwg.

Bydd gwybodaeth sy'n deillio o barhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn helpu i lywio'r cynllun gweinyddol, yn ogystal â'r gwersi sy'n cael eu dysgu o weithredu'r Cynllun yn gynnar.

<sup>1</sup> <http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/childcare/talk-childcare/pilot-areas/?skip=1&lang=cy>